OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1826 (Cy.202)

DATBLYGU ECONOMAIDD, CYMRU

Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2004

Wedi'i wneud	- -	*14 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Awst 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵ er a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18(3) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975(**1**), sydd bellach wedi'i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Terfyn Ariannol) 2004 a daw i rym ar 1 Awst 2004.

Cynnydd yn y terfyn ariannol

2. At ddibenion adran 18(3) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (cyllid yr Awdurdod) pennir y terfyn yn £3,000 miliwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

14 Gorffennaf 2004

(**1**) 1975 (p.70); diwygiwyd adran 18 gan adran 1 o Ddeddf Diwydiant 1979 (p. 32), gan adrannau 5(1) a 21 ac Atodlen 2 i Ddeddf Diwydiant 1980 (p. 33), a chan adran 1 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 (p. 37).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 1998 p.38.